# POLISI CADW DATA PERSONOL

**CRONFA BENSIWN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** (y **"Gronfa"**)

Cafodd y ddogfen yma ei llunio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (yr **"Awdurdod Gweinyddu"**, neu **"ni"**) yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa. Mae'r ddogfen yn nodi polisi cadw data personol y Gronfa.

Mae modd dod o hyd i'r ddogfen yma drwy'r ddolen ganlynol, a dylid ei darllen ar y cyd â hysbysiad preifatrwydd y Gronfa, sydd ar gael trwy'r un dudalen we:

http://www.rctpensions.org.uk/Cy/GeneralDataProtectionRegulations/GeneralDataProtectionRegulations.aspx

Fel rheolwyr data, mae'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth i ni gydymffurfio ag egwyddorion lleihau data a chyfyngu ar storio. Rhaid i'r data personol rydyn ni'n ei brosesu:

- fod yn addas, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer; a

- beidio â chael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrych y data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol i'r dibenion y mae'r data personol yn cael eu prosesu ar eu cyfer.

Mae'n ofynnol i ni gadw rhai cofnodion (p'un ai ar ffurf copi caled neu ar ffurf electronig) am gyfnodau amrywiol oherwydd:

- bod gyda ni rwymedigaeth statudol i wneud hynny; a/neu

- efallai y bydd angen yr wybodaeth sy'n y cofnodion hynny ar gyfer y dyfodol (er enghraifft, mae modd i gwestiynau godi ynghylch cyfrifo buddion gafodd eu talu'n y gorffennol, ac mae angen cadw data a allai fod yn berthnasol i hawliad cyfreithiol posibl tan fydd y cyfnod lle gellid dwyn hawliad wedi dod i ben).

Mae'r ddogfen bolisi yma'n nodi'r mesurau sydd ar waith gan y Gronfa er mwyn cydymffurfio ag egwyddorion lleihau data a chyfyngu ar storio mewn perthynas â'r data personol sydd ganddi.

## Mathau o ddata personol sydd gyda ni[3]

Rydyn ni'n cadw ac yn prosesu'r mathau canlynol o ddata personol mewn perthynas ag Aelodau'r Gronfa:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.
- Manylion personol, gan gynnwys dyddiad geni, Rhif Yswiriant Gwladol a chyfeirnodau gweithiwr ac aelodaeth.
- Gwybodaeth sy'n cael ei defnyddio i gyfrifo ac asesu a yw unigolion yn gymwys i gael buddion, er enghraifft, hyd eu gwasanaeth neu'u haelodaeth a gwybodaeth am eu cyflogau.

[1] Nodwch enw'r Gronfa.

[2] Nodwch enw'r awdurdod gweinyddu.

[3] Ystyriwch a yw unrhyw ddata personol heblaw'r data sydd wedi'i restri yn cael ei gadw neu ei brosesu. Dylai'r rhestr yma gydymffurfio â rhybudd preifatrwydd y Gronfa.

- Gwybodaeth ariannol sy'n berthnasol i gyfrifo neu dalu buddion, er enghraifft, manylion cyfrif banc a manylion treth.
- Gwybodaeth am deulu'r Aelod, ei ddibynyddion neu e amgylchiadau personol, er enghraifft, statws priodasol a gwybodaeth sy'n berthnasol i ddosbarthu a dyrannu buddion sy'n daladwy ar ôl marw.
- Gwybodaeth am iechyd yr Aelod, er enghraifft, i asesu a yw unigolion yn gymwys i gael buddion os ydyn nhw'n sâl, neu lle mae iechyd yr Aelod yn berthnasol i gais am fuddion yn dilyn marwolaeth Aelod o'r Gronfa.
- Gwybodaeth am euogfarn droseddol os yw hyn wedi arwain at yr Aelod yn ddyledus i'w gyflogwr neu'r Gronfa, ac y gall y cyflogwr neu'r Gronfa gael eu had-dalu o fuddion yr Aelod.

**Cyfnodau cadw data personol**[4]

Wrth lunio ein polisi ar gadw data personol, rydyn ni wedi ystyried y canllawiau ar gadw data personol fel y'u nodwyd gan / yn:

- Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion;
- Yr Archifau Cenedlaethol;
- Llawlyfr cydymffurfio Cyllid a Thollau EM CH15400;
- Cod Ymddygiad yr Arglwydd Ganghellor ar Reoli Cofnodion. Cafodd ei gyhoeddi o dan adran 46 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- Polisi cadw ICO;
- Canllaw Gweithgor Erthygl 29 yr UE; a
- Cod ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiwn ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw data personol am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni pwrpas ei brosesu. O ystyried natur tymor hir pensiynau, mae angen i ni sicrhau bod data personol yn cael ei gadw er mwyn:

---

[4] Mae canllawiau Gweithgor Erthygl 29 ar gyfnodau cadw yn nodi y dylid darparu gwybodaeth ystyrlon am y cyfnod cadw tebygol i wrthrychau data ac nid yw datganiad generig yn yr hysbysiad preifatrwydd yn briodol. Dylai'r polisi cadw yma, felly, bennu cyfnod diffiniedig ar gyfer peidio â chadw data (ac, yn ddelfrydol, cyfnodau ar wahân ar gyfer gwahanol gategorïau o ddata lle mae hyn yn briodol). Dyw'r GDPR ddim yn rhagnodi cyfnod amser ar gyfer cadw data. Dylai Awdurdodau Gweinyddu fod yn effro i'r ffaith, os na fyddan nhw'n ceisio rhoi cyfnod diffiniedig ar gyfer cadw data personol, mae'n annhebygol y bydd hyn yn cydymffurfio â GDPR. Gweler Erthyglau 5(1) a 5(2), ac yn benodol Erthygl 5(1) (c) - (e) o'r GDPR. Gweler hefyd Ddatganiad 39 o'r GDPR.

Felly, er ein bod yn nodi:

- bod Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar reoli cofnodion sydd o dan adran 46 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn cyfeirio at gadw cofnodion cyhyd ag y mae eu hangen ar yr awdurdod: at ddibenion cyfeirio neu atebolrwydd, i gydymffurfio â gofynion rheoliadol neu i ddiogelu hawliau a buddiannau cyfreithiol ac eraill (paragraff 12.2); a
- bod y Gymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion yn nodi y bydd angen cadw rhai cofnodion am gyfnod amhenodol os ydynt yn dystiolaeth o hawliau pensiwn neu fudd-daliadau eraill;

mae amserlen benodol awgrymedig ar gyfer cadw data personol wedi'i chynnwys yn y polisi yma er mwyn cydymffurfio â gofynion y GDPR. Bydd angen i Awdurdodau Gweinyddu ystyried i ba raddau y mae'r geiriad awgrymedig yn cyd-fynd â'u harfer (neu'u harfer arfaethedig yn y dyfodol).

Rydyn ni'n ymwybodol bod mwyafrif y cronfeydd pensiwn wedi cadw data personol am gyfnod amhenodol, naill ai oherwydd eu bod yn credu bod hynny'n briodol (e.e. oherwydd yr angen posibl i gyfeirio at y data yn y dyfodol o ystyried natur hirdymor rhwymedigaethau pensiwn), neu oherwydd yn ymarferol nid yw'n bosibl o fewn cyfyngiadau'r system weinyddu weithredu polisi dinistrio ar gyfer data penodol sy'n ymwneud ag unigolyn penodol. **Mae'n annhebygol y bydd hyn yn cydymffurfio â GDPR.** Er y dydyn ni ddim yn ymwybodol bod y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau penodol ar gyfer cynlluniau pensiwn ac rydyn ni o'r farn bod y risg o gosb ôl-weithredol gan yr ICO yn y maes yma'n isel, rydyn ni'n rhagweld y bydd hwn yn faes lle bydd arfer da yn parhau i ddatblygu. O ganlyniad, rydyn ni'n argymell bod cronfeydd pensiwn yn ystyried rhoi polisi ar waith gyda chyfnod(au) diffiniedig ar gyfer cadw data personol (o fewn cyfyngiadau angen cydnabyddedig i gadw o leiaf rhywfaint o ddata personol am gyfnod sylweddol o amser er mwyn gweinyddu budd-daliadau a delio ag ymholiadau posibl yn y dyfodol). Os oes rhai categorïau o ddata personol y mae cronfeydd yn ystyried nad oes eu hangen am gyfnod hir (e.e. manylion cyfrif banc; gwybodaeth gyfrifo budd-daliadau sylfaenol ar gyfer Aelod sydd wedi trosglwyddo o'r gronfa fwy na nifer benodol o flynyddoedd yn ôl) yna byddai'n syniad i chi fabwysiadu cyfnod cadw byrrach ar gyfer categorïau o'r fath.

- cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol o ran talu pensiynau o'r Gronfa; a
- delio ag unrhyw gwestiynau neu gwynion mae'n bosib eu derbyn ynghylch ein gweinyddiaeth o'r Gronfa.

Mae data personol yn cael ei gadw am **y mwyaf o**[5]:

- unrhyw gyfnod y mae gan yr Aelod (neu unrhyw Fuddiolwr sy'n derbyn budd-daliadau ar ôl marwolaeth yr Aelod) hawl i fudd-daliadau o'r Gronfa ac am gyfnod o 15 mlynedd[6] ar ôl i'r buddion hynny roi'r gorau i gael eu talu;
- 100 mlynedd ers dyddiad geni'r Aelod[7];
- 100 mlynedd ers dyddiad geni unrhyw Fuddiolwr a dderbyniodd fudd-daliadau o'r Gronfa ar ôl marwolaeth yr Aelod.

Yn ystod unrhyw gyfnod pan fyddwn ni'n cadw data personol, byddwn ni'n cadw'r data personol hwnnw'n gyfredol ac yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data anghywir naill ai'n cael ei ddileu neu ei gywiro heb oedi. Byddwn ni'n adolygu'r data personol rydyn ni'n ei gadw o bryd i'w gilydd ac yn ystyried a oes ei angen o hyd; bydd unrhyw ddata personol nad oes ei angen arnon ni mwyach yn cael ei ddinistrio.[8]

**Hawliau Aelod a Buddiolwr**

Mae buddiolwyr yn ffurfio categori ehangach o bobl sy'n derbyn budd-daliadau o'r Gronfa, er enghraifft priod / plentyn / plant / dibynyddion yr Aelod gweithredol / gohiriedig / pensiynwr a all dderbyn budd-daliadau o'r Gronfa yn dilyn marwolaeth Aelod. Mae gan aelodau'r Gronfa a'r Buddiolwyr hawl i gyrchu a chael copi o'r data personol sydd gyda ni amdanyn nhw a gofyn inni gywiro data personol os oes unrhyw wallau neu os yw wedi dyddio neu'n os yw'n anghyflawn.

Mewn rhai amgylchiadau mae gan Aelod / Buddiolwr yr hawl i:

- wrthwynebu prosesu eu data personol
- gyfyngu[9] ar brosesu eu data personol nes bod unrhyw wallau yn cael eu cywiro;

[5] Bwriad mynd tu hwnt i "100 mlynedd ers dyddiad geni" a "15 mlynedd wedi taliad olaf budd-dâl" i'r Aelod / Buddiolwr yw sicrhau bod Awdurdodau Gweinyddu yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau (Cynlluniau Pensiwn Gwasanaethau Cyhoeddus) sy'n nodi y bydd angen cadw data am gyfnodau hir a bydd angen i gynlluniau gadw rhai cofnodion ar gyfer Aelod hyd yn oed ar ôl i'r unigolyn hwnnw ymddeol, gan sicrhau y gellir gweinyddu buddion pensiwn yn iawn yn ystod bywyd yr Aelod a'u Buddiolwyr (paragraff 135).

[6] Mae'r cyfnod awgrymedig o "15 mlynedd wedi taliad olaf budd-dâl" yn seiliedig ar y cyfnod cyfyngu statudol uchaf cyfredol, gan y byddai angen dod ag unrhyw gwynion am dalu'r buddion hynny o fewn yr amserlen honno fel rheol.

[7] Mae'r cyfnod o "100 mlynedd ers dyddiad geni" sy'n cael ei argymell yn seiliedig ar ganllawiau'r Archifau Cenedlaethol a pholisi cadw'r ICO.

[8] Mae GDPR yn nodi, er bod y data'n cael ei gadw, mae'r rheolwr data hefyd dan rwymedigaeth i gadw data personol yn gyfredol ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data anghywir naill ai'n cael ei ddileu neu'n cael ei gywiro heb unrhyw oedi.
Dylid hefyd ystyried "trefnu'r" data sy'n cael ei gadw, er mwyn osgoi cadw eitemau unigol am fwy o amser na'r hyn sy'n ofynnol. Er enghraifft, mae modd iddo fod yn addas i ddinistrio manylion cyfrifon banc o fewn cyfnod byrrach unwaith y daw'r angen i dalu budd-dal i ben. Rydyn ni'n argymell bod cronfeydd yn cadw categorïau penodol o ddata am gyfnodau byrrach (gweler nodyn 4 uchod) ac yn cynnal archwiliadau achlysurol o ddata personol sy'n cael ei gadw, gyda'r bwriad o ddinistrio data mewn perthynas ag Aelod neu Fuddiolwr penodol os nad oes ei hangen mwyach.

[9] Gweler Erthygl 18 o'r GDPR. Dylai'r Awdurdod Gweinyddu gyfyngu ar brosesu'r data personol (yn ddarostyngedig i rai eithriadau e.e. storio neu i amddiffyn hawliad cyfreithiol neu am resymau pwysig sydd o fudd i'r cyhoedd) os yw'r unigolyn wedi herio cywirdeb y data personol. Byddai hefyd raid cyfyngu'r prosesu lle mae'r unigolyn wedi codi gwrthwynebiad am unrhyw reswm, a bod cyfiawnhad yr Awdurdod Gweinyddu yn seiliedig ar yr angen i: gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu'n unol ag awdurdod swyddogol; neu (os yw'n berthnasol) er ei fuddiannau cyfreithlon. Bydd y cyfyngiad yn para nes bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn gallu gwirio cywirdeb y data personol neu ddangos y cyfiawnhad dros ei brosesu. Er gwybodaeth, nodwch: Mae erthygl 21(1) yn cynnwys hawl gwrthrych y data i wrthwynebu prosesu data personol mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â'r unigolyn, lle mae'r rheolwr yn dibynnu ar y cyfiawnhadau yn Erthygl 6(1)(e) neu (f), sy'n cynnwys y rhai gafodd eu crybwyll uchod. O dan Erthygl 21(2), mae'r hawl i wrthwynebu hefyd yn cynnwys achosion o ddefnyddio data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol a phroffilio at y diben hwnnw.

- trosglwyddo eu data personol; neu
- ddileu[10] eu data personol.

Pe bai arfer hawliau'r Aelod / Buddiolwr yn ein hatal rhag talu neu barhau i dalu pensiwn o'r Gronfa, byddwn ni'n ystyried cadw fersiwn llai o ddata personol yr Aelod / Buddiolwr hwnnw er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol.[11]

**Cyflogwyr sy'n cymryd rhan**

Mae'r polisi yma'n berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf[12] yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod gweinyddu'r Gronfa. Rydyn ni wedi cynhyrchu canllawiau ar wahân ynghylch ein disgwyliadau ar gyfer y data personol mae'n bosibl bydd angen arnon ni i weinyddu'r Gronfa i gyflogwyr eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa. Mae'r canllaw yma'n cynnwys polisi cadw data awgrymedig, ac mae modd i gyflogwyr ei fabwysiadu mewn perthynas â'u cyfranogiad i'r Gronfa.

**Adolygu**

Bydd y polisi yma'n cael ei adolygu gan y Gronfa[13] yn flynyddol o leiaf.[14].

[10] Gweler Erthyglau 17(1) a 17(2) o'r GDPR. Dylai'r wybodaeth yma gael ei chynnwys yn y polisi, ac eithrio'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r LGPS, ac mae'n anhebygol y bydd gan Aelodau hawl ymarferol i ddileu (oherwydd y sail gyfreithiol y mae data personol yn cael ei gasglu a'i brosesu ar ei gyfer).

[11] Gweler Erthygl 17(3) o'r GDPR. Mae erthygl 18(2) a 18(3) yn cynnwys eithriadau i hawl yr Aelod i gyfyngu ar brosesu data personol mewn rhai amgylchiadau.

[12] Nodwch enw'r awdurdod gweinyddu.

[13] Diwygiwch os mai corff neu unigolyn penodol sy'n gyfrifol am adolygu'r polisi yma.

[14] Dylai'r polisi gael ei adolygu'n rheolaidd. Diwygiwch y cyfnod adolygu os nad yw cynnal adolygiad blynyddol o'r polisi yn addas.